# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Rhagfyr 2013 yn Siambr Cyngor Sir y Fflint, yr Wyddgrug. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am.

**YN BRESENNOL**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J M Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D A MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P H Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| R Wright | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon, R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Rheolwr Hyfforddi a Datblygu); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); L Roberts (Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); C Dingle (Rheolwr Cyllid); J Brown (Rheolwr Gweithredol Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau) ac S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt yr Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| L A W Jones | Cyngor Gwynedd |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |

Cyn symud at yr agenda, rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau mai hwn fyddai cyfarfod olaf y PSTC Paul Claydon gan ei fod yn ymddeol ym mis Mawrth 2014. Talodd y Cadeirydd deyrnged i waith y PSTC Claydon ac yn arbennig ei waith ar yr arolwg iechyd a diogelwch, ailstrwythuro rheolwyr gweithredol a phrosiect tân ac ambiwlans Wrecsam.

Diolchodd y Prif Swyddog Tân hefyd i'r PSTC Claydon am ei waith, a dweud i brofiad a deheurwydd y PSTC Claydon fod yn werthfawr iawn i dîm y prif swyddogion a'r Gwasanaeth dros y blynyddoedd.

Diolchodd y PSTC Claydon i'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân am eu geiriau caredig, a diolchodd i'r aelodau a'r swyddogion am eu cefnogaeth dros y cyfnod o ryw ddeng mlynedd diwethaf. Dymunodd yn dda i'r Awdurdod i'r dyfodol.

1 DATGAN BUDDIANT

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MEDI 2013

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod i'r Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 16 Medi 2013 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

3 COFNODION Y CYFARFOD ARBENNIG A GYNHALIWYD AR 5 RHAGFYR 2013

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2013 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

3.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Ymddiheurodd y Cyng. Wright nad oedd yr un o aelodau Gwynedd yn gallu dod i'r cyfarfod arbennig. Roedd un o gyfarfodydd Cyngor Gwynedd yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod.

5 MATERION BRYS

5.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau ei fod wedi derbyn llythyr gan y Gweinidog yn mynegi ei diolch i'r Prif Swyddog Tân, y Gwasanaeth a'r Awdurdod am yr ymateb i'r llifogydd ar yr arfordir yn ddiweddar.

6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

6.1 Roedd adroddiad y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Medi a Rhagfyr 2013 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

6.2 Cyfeiriodd y Cadeirydd at Wasanaeth Carolau'r Gwasanaethau Brys. Cafwyd cynulleidfa dda yno a bu'n noson bleserus iawn. Adleisiwyd geiriau'r Cadeirydd gan y Cyng. Jim Evans, a diolchodd i'r rhai a drefnodd y noson.

6.3 Tynnodd y Cadeirydd sylw hefyd at seremonïau'r Ffenics, a nododd Aelodau eraill eu gwerthfawrogiad o'r gwaith a wneir gan staff y Ffenics.

6.4 Dywedodd y Cyng. P Shotton ei fod wedi mwynhau noson y Gwobrau Cymunedol a Gwasanaeth Hir a'i fod yn falch o gael bod yn rhan o'r digwyddiad.

6.5 Diolchodd y Cyng. Dunbar i'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân am ddod i gyfarfod o bwyllgor proffil cymunedol a phartneriaethau Cyngor Sir y Fflint i drafod amcanion gwella drafft yr Awdurdod; teimlai i'r cyfarfod fod yn un buddiol a bod y cynghorwyr yn gwerthfawrogi'r cyflwyniad.

6.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 ALLDRO AMCANOL 2013-14

7.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr alldro amcanol a amcangyfrifir am y flwyddyn 2013-14.

7.2 Roedd yr adroddiad yn dangos y byddai gan yr Awdurdod danwariant o ryw £357k. Fodd bynnag, dywedodd y Trysorydd fod yr arwyddion diweddaraf yn dangos y byddai'r tanwariant o bosibl yn uwch, a gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo hwnnw ar gyfer defnydd cyfalaf, a thrwy hynny leihau unrhyw gynnydd yn y gyllideb refeniw yn y blynyddoedd i ddod.

7.3 Holodd y Cyng, Jeff Evans am y tanwariant ar ddiffoddwyr tân y system RDS gan ei fod yn bryderus nad oedd digon yn cael ei wneud i recriwtio mwy o bobl i weithio ar y system. Cafwyd trafodaeth faith, ac atgoffwyd yr Aelodau gan y swyddogion am y gwaith a wnaed yn gynharach yn y flwyddyn i recriwtio diffoddwyr tân. Cafodd yr Aelodau wybod bod swyddogion yn cydweithio â'r cyrff cynrychioliadol i ganfod system newydd a fydd yn diwallu anghenion y byd heddiw ac anghenion Gogledd Cymru.

7.4 Materion eraill a godwyd gan yr Aelodau yn ystod y drafodaeth oedd amharodrwydd cyflogwyr i adael i'w staff gyflawni dyletswyddau'r system RDS; y gofynion hyfforddi ar gyfer diffoddwyr tân y system RDS; y gwaith hysbysebu am ddiffoddwyr tân y system RDS a wnaed, fel yr atgoffwyd yr Aelodau, drwy'r cyfryngau cymdeithasu yn ystod yr ymgyrch recriwtio ddiwethaf ac a fu'n llwyddiant. Gofynnodd yr Aelodau am adroddiad am y sefyllfa bresennol a'r modd yr oedd y swyddogion yn gweld gofal tân mewn ardaloedd gwledig yn gweithio yn y dyfodol.

7.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r tanwariant a amcangyfrifir, a chytuno mewn egwyddor i neilltuo arian o refeniw i ariannu'r rhaglen gyfalaf;**
**(ii) gofyn am adroddiad am y sefyllfa bresennol a'r modd y mae'r swyddogion yn gweld gofal tân mewn ardaloedd gwledig yn gweithio yn y dyfodol.**

8 CYLLIDEB DDRAFFT 2014-15

8.1 Cafodd cyllideb ddrafft 2014-15 ei chyflwyno i'r Aelodau i'w chymeradwyo. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cynigion mewn perthynas â chyllideb ddrafft 2014-15 a'r rhagolygon ar gyfer 2015-16 a 2016-17.

8.2 Aeth y Trysorydd â'r Aelodau drwy'r adroddiad a thynnu sylw'r Aelodau at y ffaith fod yr Awdurdod eisoes wedi sicrhau £2.4 miliwn o arbediad dros y tair blynedd diwethaf o ganlyniad i fod yn ofalus wrth reoli'r gyllideb, rheoli newidiadau a chynllunio. Yn y cyfarfod arbennig o'r Awdurdod ar 5 Rhagfyr, roedd yr Aelodau wedi cytuno mai'r flaenoriaeth oedd cynnal y ddarpariaeth bresennol o wasasanaeth a chyflawni'r amcanion a osodwyd yng nghynllun gwella'r Awdurdod. Felly, roedd y Trysorydd yn ffafrio cyllideb wedi ei rhewi ar gyfer 2014-15 gan nodi y byddai'n rhaid ymorol o'r cronfeydd wrth gefn am unrhyw bwysau chwyddiant. Roedd y Clerc yn cynghori bod yn ofalus ac yn pwysleisio mai am flwyddyn yn unig yr oedd hyn yn gynaliadwy ac y byddai angen cynllun mwy tymor hir ar Weithgor y Cynllun Gwella o 2015 ymlaen i ystyried y cydbwysedd rhwng y pwysau ar y gyllideb, darparu gwasanaethau a'r risg i'r cyhoedd.

8.3 Dywedodd y Trysorydd mai un dros dro oedd y gyllideb ddrafft a gyflwynwyd, a phetai angen gwneud unrhyw newidiadau, byddai angen galw cyfarfod brys o'r Awdurdod cyn 15 Chwefror 2014 sef pryd y bydd raid roi gwybod i'r awdurdodau cyfansoddol pa gyfraniadau sydd eu hangen ganddynt. Mae'r cyfraniadau sydd eu hangen gan yr awdurdodau cyfansoddol yn seiliedig ar ffigurau amcangyfrifiedig o'r boblogaeth. Bu newidiadau i'r ffigurau poblogaeth ledled y Gogledd yn ystod 2013-14, ac arweiniodd hyn at gyfraniadau'n cynyddu i rai awdurdodau ac yn cael eu lleihau i rai eraill, fel y nodwyd yn atodiad B i'r adroddiad.

8.4 Roedd y Cyng. Shotton yn falch o weld yr ymrwymiad i barhau i gyflwyno 30,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref bob blwyddyn ac roedd yn cydnabod pwysigrwydd atal tanau. Roedd hefyd yn gefnogol o'r dull darbodus o ymdrin â'r gyllideb ddrafft ac yn cynnig cymeradwyo cyllideb 2014-15. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. D MacRae.

8.5 **PENDERFYNWYD**

- **(i) cymeradwyo cyllideb ddrafft 2014-15;**
- **(ii) cadarnhau'r strategaeth i'w dilyn er mwyn cael cyllideb gytbwys ar gyfer 2014-15;**
- **(iii) nodi sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2015-16 a 2016-17;**
- **(iv) rhoi gwybod i'r awdurdodau cyfansoddol pa gyfraniadau amcanol sydd eu hangen ar gyfer 2014-15;**
- **(v) cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft a'r dulliau cysylltiedig o ariannu ar gyfer 2014-15.**

9 PROSIECT Y GWASANAETH TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU

9.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân ddiweddariad i'r Aelodau am y prosiect a gychwynnwyd gan Lywodaeth Cymru, a chan y Gweinidog yn arbennig. Roedd y tri ATA wedi darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ac roedd adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Gweinidog, ond ni rannwyd yr adroddiad gyda'r ATAau eto. Dywedodd y Cyng. Lowe ei bod yn ddyletswydd ar y

Gweinidog i adrodd ynghylch y canfyddiadau i'r Awdurdod, ac os darparwyd yr wybodaeth gyda phob ewyllys da yna dylai Llywodraeth Cymru rannu'r adroddiad gyda'r tri ATA. Cynigiodd fod llythyr yn cael ei anfon gan yr Awdurdod yn gofyn i'r adroddiad gael ei rannu ar unwaith.

9.2 **PENDERFYNWYD anfon llythyr at y Gweinidog yn gofyn am rannu'r adroddiad gyda'r Awdurdod.**

10 PENODI AELODAU ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU

10.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn cynnig y dylid ailbenodi'r ddau aelod annibynnol o Bwyllgor Safonau'r Awdurdod am gyfnod pellach o bedair blynedd.

10.2 Mae Celia Blomeley a Jane Eyton-Jones wedi gwasanaethu am un cyfnod o bedair blynedd ac maent yn gymwys i'w hailbenodi am uchafswm o un cyfnod pellach hyd at bedair blynedd. Mae'r ddwy wraig wedi dweud eu bod yn fodlon cael eu hailbenodi.

10.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) ailbenodi Celia Blomeley a Jane Eyton-Jones yn aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau gan ddod i rym yn Ionawr 2014 am gyfnod o bedair blynedd;**

**(ii) dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd, y Clerc a'r Prif Swyddog Tân i benodi aelod lleyg i'r panel cynghori ar gyfer gwneud unrhyw benodiadau i'r Pwyllgor Safonau fel y bônt yn codi.**

11 DYDDIADAU CYFARFODYDD 2014

11.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio yn 2014.

11.2 **PENDERFYNWYD nodi dyddiadau'r cyfarfodydd fel a ganlyn:**

**Cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub**

Dydd Llun 17$^{eg}$ Mawrth 2014 – Sir Ddinbych
Dydd Llun 16$^{eg}$ Mehefin 2014 – Conwy
Dydd Llun 22$^{ain}$ Medi 2014 – Ynys Môn
Dydd Llun 15$^{fed}$ Rhagfyr 2014 – Sir y Fflint

**Cyfarfodydd y Panel Gweithredol a gynhelir am 2pm ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub**

Dydd Llun 3$^{ydd}$ Chwefror 2014
Dydd Llun 12$^{fed}$ Mai 2014
Dydd Llun 21$^{ain}$ Gorffennaf 2014
Dydd Llun 27$^{ain}$ Hydref 2014

**Cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a gynhelir am 2pm ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub**
Dydd Llun 27ain Ionawr 2014
Dydd Llun 2il Mehefin 2014
Dydd Llun 15fed Medi 2014

12 COFNODION CYFARFODYDD

12.1 Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn eu cyflwyno er gwybodaeth:

- Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Medi 2013
- Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2013.

12.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

RHAN II – Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem fusnes ganlynol(eitemau busnes canlynol) yn cael ei hystyried oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu iddynt.

13 RHAGLEN GYFALAF 2013/14

13.1 Roedd yr adroddiad yn darparu diweddariad i'r Aelodau am raglen gyfalaf ystad yr Awdurdod. Hefyd, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cymeradwyo cyllideb gyfalaf ychwanegol o £182,000 a £338,000 ar gyfer prosiectau Nefyn a Thywyn.

13.2 Rhoddodd y PSTC Claydon wybodaeth i'r Aelodau am y datblygiadau diweddaraf gyda phrosiect tân ac ambiwlans Wrecsam. Caiff yr achos busnes llawn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

13.3 Nodwyd bod rhywfaint o waith cydymffurfio â Chydraddoldeb a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd i'w wneud yn adeilad y Pencadlys ac y bydd y gwaith hwn yn cychwyn yn Chwefror 2014. Mae gwaith cynnal a chadw a oedd yn yr arfaeth, ynghyd â mân waith, wedi ei wneud mewn gwahanol orsafoedd, a disgwylir y bydd yr holl waith wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2014.

Ar yr adeg hon, gadawodd y Cyng. G Lowe y cyfarfod.

13.4 Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau am brosiectau tân a heddlu Nefyn a Thywyn. Esboniodd y PSTC Claydon fod angen y gorsafoedd newydd hyn gan fod y rhai presennol yn hen a heb gyfleusterau addas gan gynnwys cyfleusterau hyfforddi. Gosodwyd y cyllidebau gwreiddiol ar gyfer y gorsafoedd ym mis Medi 2009, ond oherwydd yr angen i ganolbwyntio adnoddau ar orsaf dân ac ambiwlans Wrecsam, cafodd y ddau brosiect eu gohirio. Erbyn hyn adolygwyd y cyllidebau a'u diweddaru i gymryd ystyriaeth o'r costau megis y safon BREEAM (*Building Research Establishment Environmental Assessment Measurement*) a'r cynnydd chwyddiannol. Nodwyd y bydd yr heddlu'n cyfrannu tuag at y gronfa gyfalaf, a hefyd bydd trefniant yn parhau ar gyfer rhoi lle iddynt yn yr adeilad.

13.5 Cadarnhawyd bod arian wedi ei neilltuo ar gyfer prosiect gorsaf dân Glannau Dyfrdwy i gychwyn yn 2014-15, a sefydlwyd bwrdd y prosiect i lunio briff y prosiect. Mae bwrdd y prosiect yn cynnwys y PSTC Claydon, penaethiaid adrannau a chynrychiolwyr o'r orsaf.

Ar yr adeg hon, gadawodd y Cyng. P Pemberton y cyfarfod.

13.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi cynnwys yr adroddiad;**

**(ii) cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ychwanegol o £182,000 a £338,000 ar gyfer prosiectau Nefyn a Thywyn.**

Ar yr adeg hon, gadawodd Stephen Roberts y cyfarfod.

14 DIWEDDARIAD AM REOLI PARHAD BUSNES YN DILYN Y GWEITHREDU DIWYDIANNOL YN HYDREF 2013

14.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r paratoadau ar gyfer y cyfnodau diweddar o weithredu diwydiannol gan Undeb yr FBU, ynghyd ag effaith y gweithredu diwydiannol hwnnw.

14.2 Cafodd yr Aelodau wybodaeth am yr adegau y galwyd y Gwasanaeth allan yn ystod y cyfnodau streicio, a'r camau a gymerwyd. Cadarnhawyd nad oedd y gweithredu diwydiannol wedi effeithio ar ymateb y Gwasanaeth i'r digwyddiadau hynny.

14.3 Briffiwyd yr Aelodau gan y PST am fater gweithredu ac eithrio streicio (*action short of strike (ASOS)*). Gall hynny gynnwys gwrthod gwneud goramser, gweithio i reol, a thynnu ewyllys da. Mae ASOS yn golygu torri contract cyflogaeth, ac atgoffwyd yr Aelodau eu bod eisoes wedi cytuno yn y cyfarfod arbennig ar 5 Rhagfyr i ddirprwyo awdurdod i'r PST ar y cyd â'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd, y Trysorydd a'r Clerc i ymdrin yn y ffordd fwyaf priodol â'r sefyllfa hon sy'n newid yn sydyn.

14.4 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

15 STRWYTHUR YR UWCH REOLWYR

15.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo proses ar gyfer cwblhau'r gwaith sy'n weddill ar strwythur yr uwch reolwyr a'r lefelau tâl.

15.2 Rhoddodd y Clerc a'r Prif Swyddog Tân drosolwg o'r materion i'w hadolygu.

15.3 Bu'r Aelodau'n trafod yr adroddiad, a chynigiodd y Cyng. B Dunn, a fu'n aelod o bwyllgor adolygu'r uwch gyflogau yn gynharach yn y flwyddyn, fod yr argymhellion yn cael eu derbyn ac eiliwyd hyn gan y Cyng. D MacRae. Roedd y Cyng. Jeff Evans yn erbyn y cynigion.

15.4 **PENDERFYNWYD dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Tân a'r Clerc, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd, i wneud y canlynol:**

**(i) adolygu'r gallu sydd ei angen i weithredu'r gwasanaeth ar lefel uwch reolwyr a gwneud penderfyniad ynglŷn â recriwtio i drydedd swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol fel sydd yn nifer y llu cyfredol, a thrwy hynny**

**(ii) adolygu maint cymharol y swyddi, a gwerthuso'r tair swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol i bennu a ddylid cael cyflog cyfartal o fewn un raddfa gyflog, ar yr amod nad yw lefel y tâl ar gyfer graddfa gyflog o'r fath yn uwch na chyflog uchaf cyfredol y tair swydd bresennol.**

15.5 **Gofynnodd y Cyng. Jeff Evans i'w bleidlais yn erbyn y cynigion gael ei rhoi yn y cofnodion.**